

Y materion cyffredinol sydd yn effeithio ar fioamrywiaeth / General Issues Affecting Biodiversity

Mae cadwraeth bioamrywiaeth yn ddibynnol nid yn unig ar weithredu'n uniongyrchol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, ond hefyd ar nifer o faterion ehangach sy'n dylanwadu'n fawr ar les planhigion ac anifeiliaid gwyllt.

AMAETHYDDIAETH A CHOEDWIGAETH

Amaethyddiaeth

Defnyddir llawer o dir Sir Gaerfyrddin ar gyfer ffermio, a hynny ar dir wedi'i gau ac ar dir heb ei gau, ac mae gan amaethyddiaeth ddylanwad mawr ar fioamrywiaeth y sir. O'r herwydd mae ffermwyr a thirfeddianwyr yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth sicrhau y caiff y fioamrywiaeth bresennol ei chynnal a'i gwella. Mae newidiadau i amaethyddiaeth dros y 50 mlynedd diwethaf wedi arwain at golled gyffredinol a sylweddol o ran rhywogaethau glaswelltir. Fodd bynnag, er bod rhannau eraill o'r DG wedi profi newid mawr mewn arferion amaethu, mae natur wledig y sir ynghyd â'i daearyddiaeth wedi sicrhau bod y newidiadau amaethyddol mewn llawer rhan o'r sir wedi bod yn llai sylweddol. Mae'r prif ddylanwadau ar gynefinoedd yn y sir yn ymwneud â'r newid o gynhyrchu gwair i silwair, mwy o ddraenio a chynhyrchu mwy o borfa trwy ddefnyddio gwrteithiau ac ailhadu. Mae cyfraddau stocio uwch hefyd wedi cyfrannu i ddirywiad mewn bioamrywiaeth mewn llawer ardal. Yn ogystal â hyn, mae llawer math o gynefin wedi chwalu ac os yw'r cynefinoedd sydd ar ôl yn mynd i lewyrchu, mae angen ymagweddau newydd sy'n cyfuno dulliau o amaethu sy'n gydnaws â bioamrywiaeth ynghyd ag anghenion economaidd cynhyrchu bwyd.

Cymhellion i Reoli Tir yn Ffafirol

Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd yn hybu cydbwysedd rhwng cynhyrchiant amaethyddol a gwarchod a gwella'r amgylchedd ac yn cynnig cymhellion ariannol i annog arferion amaethu sy'n fwy cydnaws â bioamrywiaeth. Mae'r cynlluniau amaeth-amgylchedd sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), y Comisiwn Coedwigaeth (CC), yr Adran Amaeth a Materion Gwledig (AAMG), Parciau Cenedlaethol a chyrrff cyhoeddus eraill, ac yn cynnwys:

- Tir Gofal,
- Cynllun Cymorth Organig/Ffermio Organig,
- Cynllun Grantiau Coetir y Comisiwn Coedwigaeth,
- Grantiau a Chytundebau Dewisol y Parc Cenedlaethol.

Tir Gofal

Cyflwynwyd Tir Gofal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC) ym 1999 ac fe'i gweinyddir gan CCGC. Bu'n fodd i ddisodli a helaethu nifer o gynlluniau a oedd yn bodoli eisoes, gan gynnwys Tir Cymen, Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS), Cynllun Cynefin, y Cynllun Adfer Gwrychoedd a llawer o rai eraill. Mae Tir Gofal yn gynllun amaeth-amgylcheddol fferm-gyfan ar gyfer Cymru gyfan, sy'n talu ffermwyr am reoli cynefinoedd gwerthfawr sydd eisoes ar eu ffermydd er lles cadwraeth natur gyda dewisiadau gwirfoddol ar gyfer rheoli, creu neu wella cynefinoedd eraill.

Tir Comin

Mae tir comin yn hanfodol bwysig i lawer o ffermwyr yn Sir Gaerfyrddin, oherwydd heb yr hawl i bori anifeiliaid ar dir comin ni fyddai llawer o ddaliadau fferm yn hyfyw. Mae llawer o dirwedd Sir Gaerfyrddin yn cynnwys tir comin yn rhannol, gyda'i frithwaith nodweddiadol o gynefinoedd, gan gynnwys tir glas asidig, rhostir sych a gwlyb, gorgors a ffridd. Mae'r cynefinoedd hyn yn bwysig i lawer o adar yr ucheldir, amrywiaeth o famaliaid bychain a'r ysgyfarnog. Yn anffodus, mae tir comin dan fygythiad mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gorburi ac, mewn rhai achosion, tan-bori; llosgi heb reolaeth; rhedyn yn ymledu; beiciau modur a cherbydau gyriant 4-olwyn.

The conservation of biodiversity is not only dependent on direct action for habitats and species, there are many wider issues that have a great influence on the welfare of wild plants and animals.

AGRICULTURE AND FORESTRY

Agriculture

Much of Carmarthenshire's land is used for farming on both enclosed and unenclosed land and agriculture has a major influence on the county's biodiversity. Farmers and landowners therefore play a vitally important role in ensuring that existing biodiversity is maintained and enhanced. Changes in agriculture over the past 50 years have led to a general and marked loss of grassland species. However, while other parts of the UK have witnessed major changes in agricultural practices, the pastoral nature of the county along with its topography has ensured that agricultural changes in many parts of the county have been less marked. The major influences on habitats within the county have been related to the change from hay production to silage, increased drainage and increased grass productivity by the use of artificial fertilisers and reseeding. Higher stocking rates have also contributed to a decline in biodiversity in many areas. In addition, many types of habitat have become fragmented and if these remaining habitats are to flourish, new approaches are needed which combine farming practices that are sympathetic to biodiversity with the economic requirements for food production.

Incentives for Favourable Land Management

Agri-environment schemes encourage a balance between agricultural production and environment protection and enhancement and offer financial incentives to encourage farming practices that are more sympathetic to biodiversity. Such agri-environment schemes that apply to Carmarthenshire are administered by Countryside Council for Wales (CCW), Forestry Commission (FC), Agriculture and Rural Affairs Department (ARAD), National Parks and other public bodies, and include:

- Tir Gofal,
- Organic Aid/Organic Farming Scheme,
- Forestry Commission Woodland Grant Scheme,
- National Park Discretionary Grants and Agreements.

Tir Gofal

Tir Gofal was introduced by the Welsh Assembly Government (WAG) in 1999 and is administered by CCW. It replaced and expanded a number of existing schemes including Tir Cymen, Environmentally Sensitive Areas (ESAs), the Habitat Scheme, Hedgerow Renovation Scheme and many others. Tir Gofal is an all-Wales, whole-farm agri-environmental scheme that provides payments for farmers to manage existing valuable habitats on their farms to benefit nature conservation with voluntary options for managing, creating or improving other habitats.

Common Land

Common Land is crucially important to many farmers in Carmarthenshire, for without the right to graze animals on their land many farm holdings would not be viable. Much of Carmarthenshire's landscape consists in part of common land, with its typical mosaic of habitats, including acid grassland, wet and dry heath, blanket bog and ffridd. These habitats are important for many upland birds, a variety of small mammals and the brown hare. Unfortunately common land is under threat in a number of ways, including over and, in some cases, undergrazing, uncontrolled burning, bracken encroachment, motorcycles and 4-wheel drive enthusiasts.

Coedwigaeth

Mae coedwigaeth yn ddefnydd tir pwysig arall yn y sir sy'n effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth. Amcangyfrifir bod tua 13% o arwynebedd y sir dan goed. [Credir bod tua 22% o goetir y sir yn hynafol, a gellir ystyried 14% o goetir y sir yn hynafol a lled naturiol]. Mae coetiroedd hynafol (y rhai yr ystyrir eu bod yn bodoli er 1600, os nad yn gynt) sy'n fwy na 2 ha o faint yn gorchuddio tua 3% o'r sir, ac mae'r ffigur hwn yn cynnwys ardaloedd sylweddol o gonwydd ar safleoedd coetir hynafol.

Plannwyd ardaloedd helaeth o'r sir â chonwydd rhwng y 1930au a 1990, a hynny'n cynnwys plannu tir agored, yn ogystal â phlannu mewn coetiroedd collddail a oedd yn bodoli eisoes. Erbyn hyn mae llawer o'r planhigfeydd conwydd hyn, ar safleoedd coetir hynafol sy'n eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn cael eu hystyried ar gyfer eu hadfer i goed collddail, ac mae'n ymddangos y bydd yr ecosystemau a gysylltid gynt â'r cynefinoedd hyn yn gallu aildyfu. Gellir rheoli coedwigoedd conwydd mewn ffyrdd sy'n gwella bioamrywiaeth, er enghraifft gadael pren marw ac agor llennyrych ac ardaloedd o wlyptir, yn ogystal â rheolaeth benodol i ddiwallu anghenion y wiwer goch, sy'n rhywogaeth flaenoriaethol yn y DG.

Mae coetiroedd collddail ledled Cymru wedi dioddef o ddiffyg rheolaeth ers degawdau oherwydd marchnadoedd newidiol a gostyngiad yn hyfywedd economaidd cynhyrchion coetir. Yn y gorffennol, mae gorburi, cyfnewid coetir collddail brodorol am gonwydd a rhoi'r gorau i fathau traddodiadol o reolaeth megis bondocio wedi arwain at ostyngiad yn y bioamrywiaeth a gysylltir â'r coetiroedd lled-naturiol hyn. Eto mae modd gwrthdroi'r newidiadau hyn ac mae **Coed Cymru**, partneriaeth aml-asiantaeth sy'n gweithio ledled Cymru, yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol am ddim i berchnogion coetiroedd i ddod â choetiroedd sydd wedi'u hesgeuluso yn ôl dan reolaeth er mwyn cynhyrchu pren. Y nod yw rheoli coetiroedd unwaith eto ac adfer eu bioamrywiaeth. Cynhwysir coetiroedd collddail mewn nifer o gynlluniau gweithredu cynefin yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ac maent yn cynnal amrediad o rywogaethau blaenoriaethol y DG, megis y pathew.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei hymagwedd at Goedwigaeth Gynladwy yn Safon Coedwigaeth y DG 1998. Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli coetir yn y dyfodol ac mae'n rhoi sylw yn benodol i fioamrywiaeth.

Yn 2001 cyhoeddwyd Coetiroedd i Gymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef dogfen sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer polisi coedwigaeth a choetir dros y 50 mlynedd nesaf ac yn pennu cyfeiriad ar gyfer y ffordd y bydd coed a choetiroedd yn cyfrannu at ddyfodol cynladwy i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cadw a gwella bioamrywiaeth ein coetiroedd, gan symud tuag at ehangu'r defnydd o systemau gorchudd di-dor, a gwneud y defnydd gorau o goetiroedd ar gyfer dysgu.

(Ffynhonnell y ffigurau: Rhestr Dros Dro y Cyngor Gwarchod Natur o Goetir Hynafol yn Sir Gaerfyrddin [1988])

Grantiau Gwella Coetiroedd

Ym 1996 cyflwynwyd Grantiau Gwella Coetiroedd gan y Comisiwn Coedwigaeth fel rhan o'i Gynllun Grantiau Coetir, gan dargedu cadwraeth bioamrywiaeth yn benodol. Mae grantiau ar gael ar gyfer coedydd sydd heb eu rheoli'n ddigonol, gan gynnwys cyllid ar gyfer adfer prysgoed a bioamrywiaeth coetir. Mae taliadau atodol ar gael ar gyfer plannu coetir newydd ar dir amaethyddol, gan gynnwys Cynllun Premiwm Coetir Fferm Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Mae lansio Strategaeth Coetir Cymru yn 2001 yn cynnig ymagwedd newydd, a fydd o gymorth mawr i gadwraeth bioamrywiaeth.

Forestry

Forestry is another major land use in the county that has a significant affect on biodiversity. It is estimated that approximately 13% of the county is wooded. [About 22% of the woodland in the county is thought to be of ancient origin, and 14% of the county's woodland may be considered to be both ancient and semi-natural.] Ancient woodlands (those that are considered to have been in existence since 1600, if not earlier) over 2 ha in size, cover approximately 3% of the county, and this figure includes significant areas of conifers on ancient woodland sites.

Large areas of the county were planted with conifers between the 1930s and 1990; this included the planting of open ground, as well as planting into existing broadleaved woodlands. Many of these National Assembly-owned conifer plantations on ancient woodland sites are now being considered for reversion to broadleaves, and the woodland ecosystems formerly associated with these habitats appear to have the capacity to recover. Conifer forests themselves can be managed in ways which enhance biodiversity, for example with the retention of dead wood and opening up of glades and wetland areas, as well as specific management to meet the needs of the red squirrel, a UK priority species.

Broadleaved woodlands throughout Wales have suffered from lack of management for decades due to changing markets and the reduced economic viability of woodland products. In the past, overgrazing, replacement of native broadleaved woodland with conifers and the cessation of traditional forms of management such as coppicing have all led to a reduction in the biodiversity associated with these semi-natural woodlands. Again these changes can be reversed and **Coed Cymru** (CC), a multi-agency partnership working across Wales, provides a free advisory service for woodland owners to bring neglected woodlands into management for timber production. It aims to bring woodlands back into management and to restore their biodiversity. Broadleaved woodlands are covered by a number of habitat action plans in the Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan and support a range of UK priority species, such as the dormouse.

The Government has set out its approach to sustainable forestry in the *UK Forestry Standard 1998*. This provides a framework for protecting and managing woodland in the future and gives specific attention to biodiversity. In 2001 the Welsh Assembly Government produced *Woodlands for Wales*, which presents a vision for forestry and woodland policy over the next 50 years and sets a direction for the way in which trees and woodlands will contribute to a sustainable future for Wales. This includes conserving and enhancing the biodiversity of our woodlands; moving towards a greater use of continuous-cover systems, and maximising the use of woodlands for learning.

(Source for figs. NCC's Provisional Inventory of Ancient Woodland in Carmarthenshire [1988])

Woodland Improvement Grants

In 1996 the Forestry Commission introduced Woodland Improvement Grants under its Woodland Grant Scheme, specifically targeting biodiversity conservation. Grants are available for under-managed woods, including funding for the restoration of coppice and for woodland biodiversity. Supplements are available for planting new woodland on agricultural land, including the National Assembly Agriculture Department's Farm Woodland Premium Scheme. The launch of the Wales Woodland Strategy in 2001 offers a new, targeted approach that will greatly assist biodiversity conservation.

Cyngor

Mae cyngor i dirfeddianwyr ynghylch sut i reoli tir er mwyn bioamrywiaeth yn bwysig iawn. Er bod Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CYT), Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCFF) yng Nghymru ac Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) i gyd yn weithgar wrth hybu ffermio sy'n gydnaws ag anghenion yr amgylchedd, mae argaeledd cyngor yn y fan a'r lle gan ymgynghorwyr â chefnidir amaethyddol ac amgylcheddol cryf yn hanfodol. Mae cadwraeth bioamrywiaeth yn y sector amaethyddol yn her arbennig sy'n golygu partneriaeth eang: o gyflawni cynlluniau cymell a chyngor lleol a chenedlaethol, i ragfynegi newid a dylanwadu ar bolisi. Mae gan UCFF, UAC, CYT, CCGC, Coed Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (YNDGC) a'r Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt (GYFFBG) ran barhaus a phwysig i'w chwarae yn y partneriaeth hon.

Nod Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLL) Sir Gaerfyrddin fydd rhoi gwybodaeth i berchnogion ac ymgynghorwyr, a dylanwadu ar eu gweithredoedd. Gan hynny bydd rhaid i unrhyw weithredu sy'n deillio o'r cynllun fod yn amlwg berthnasol i'r ffermwyr a'r tirfeddianwyr, sy'n rheoli cyfran helaeth o'n cefn gwlad.

CYNLLUNIO A DATBLYGU

Mae'r angen am dir at bwrpasau datblygu wedi arwain at wrthdaro anorfod gyda chadwraeth bywyd gwyllt. Mae datblygu ar gyfer tai, diwydiant a busnes, heolydd, gwaredu gwastraff a chloddio mwynau wedi bod yn arbennig o bwysig, gan arwain nid yn unig at golled uniongyrchol, ond hefyd ystod eang o ddylanwadau anuniongyrchol ar gadwraeth natur, megis llygredd, newid ansawdd a llif dŵr, aflonyddu ar safleoedd sy'n agos i ddatblygiadau, ac ynysu a chwalu'r cynefinoedd sy'n weddill. Mae'r galw am ddatblygu newydd yn parhau, ond ar yr un pryd mae pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cadwraeth natur wedi'i gydnabod. Bydd mabwysiadu'r CGBLL fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn gyrru'r broses hon yn ei blaen ac yn sicrhau bod y broses gynllunio yn fodd i warchod cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau o bwys ar raddfa leol a ledled y DG.

Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol

Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i gefnogi amcanion bioamrywiaeth, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a'r Newidiadau 1985, Rheoliadau Cadwraeth 1994, a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (gweler Atodiad 1). Mae canllawiau cynllunio a ddarparwyd gan LlCC yn rhoi cyngor i sicrhau fod materion cynllunio yn cymryd y ddeddfwriaeth hon i ystyriaeth. Mae Polisi Cynllunio (Cymru) (PCC) 2002 yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn elfen hanfodol o ddatblygu cynladwy ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â materion bioamrywiaeth, o ran eu perthynas â chynllunio defnydd tir, mewn cynlluniau datblygu unedol a phenderfyniadau rheoli datblygu (PCC 5.2.7). Mae'r canllawiau'n datgan fod 'gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae wrth ddiwallu amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo ymagweddau at ddatblygu sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colledion bioamrywiaeth neu wneud yn iawn am golledion lle mae niwed yn anorfod'. Mae Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (sy'n cael ei adolygu) yn ategu darpariaethau cyffredinol Polisi Cynllunio Cymru o ran cadwraeth natur. Yn gryno mae'r canllawiau yn:

- nodi amcanion y Llywodraeth o ran cadwraeth natur a fframwaith cyfraith gwladol a rhyngwladol ar gyfer diogelu ein treftadaeth naturiol;
- disgrifio swyddogaeth allweddol awdurdodau lleol a CCGC;
- pwysleisio pwysigrwydd safleoedd dynodedig a chynefinoedd heb eu dynodi, ar gyfer cadwraeth natur;
- rhoi cyngor ynghylch ymdrin â materion cadwraeth natur mewn cynlluniau datblygu;

Advice

Advice to landowners on how to manage land for biodiversity is very important. While the Country Landowners and Business Association (CLA), the National Farmers Union of Wales (NFU) and the Farmers Union of Wales (FUW) are all active in promoting environmentally sensitive farming, the availability of on-the-ground advice from advisors with a strong agricultural and environmental background is essential. Conserving biodiversity within the agricultural sector is a particular challenge and one that involves a wide partnership, from delivery of national and local incentive schemes and advice to forecasting change and influencing policy. The NFU, FUW, CLA, CCW, CC, Wildlife Trust of South and West Wales (WTSWW) and the Farming and Wildlife Advisory Group (FWAG) have a continuing important role to play within this partnership.

The aim of Carmarthenshire's Local Biodiversity Action Plan (LBAP) will be to inform both owners and advisers and to influence their actions. Action stemming from the plan therefore will have to be clearly relevant to the farmers and landowners, who manage a large proportion of our countryside.

PLANNING AND DEVELOPMENT

The need for land for development purposes has resulted in inevitable conflicts with wildlife conservation. Housing, industrial and business development, roads, waste disposal and mineral extraction have been especially significant, resulting not only in direct loss, but also a whole variety of indirect impacts on nature conservation such as pollution, modification of water quality and flow, disturbance to sites in close proximity to development, and isolation and fragmentation of remaining habitats. The demand for new development continues, but at the same time the important role of planning for nature conservation has been recognised. The adoption of the LBAP as Supplementary Planning Guidance will take this process forwards and ensure that through the planning process UK and locally important habitats and species are conserved.

Relevant Legislation and Guidance

Various pieces of national and European legislation provide the legal framework to support biodiversity objectives, including the Wildlife and Countryside Act (WCA) 1981 and Amendments 1985, the Conservation Regulations 1994, and the Countryside and Rights of Way Act (CROW Act) 2000 (see Appendix 1). Planning guidance provided by the WAG gives advice to ensure that planning matters take account of this legislation. Planning Policy (Wales) 2002 (PPW) recognises that biodiversity is an essential element of sustainable development and places an onus on the local authority to address biodiversity issues, insofar as they relate to land-use planning, in both unitary development plans and development control decisions (PPW 5.2.7). The guidance states that 'the planning system has an important part to play in meeting biodiversity objectives by promoting approaches to development which create new opportunities to enhance biodiversity, prevent biodiversity losses or compensate for losses where damage is unavoidable'. Technical Advice Note (Wales) 5: Nature Conservation and Planning (under revision) amplifies the broad provisions of Planning Policy Wales with respect to nature conservation. In summary the guidance:

- sets out the Government's objectives for nature conservation and the framework for safeguarding our natural heritage under domestic and international law;
- describes the key role of local authorities and CCW;
- emphasises the importance of both designated sites and non-designated habitats for nature conservation;
- advises on the treatment of nature conservation issues in development plans;

Y materion cyffredinol sydd yn effeithio ar fioamrywiaeth / General Issues Affecting Biodiversity

- nodi meini prawf datblygu, yn enwedig ar gyfer SoDdGAau a safleoedd â dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol ychwanegol;
- nodi goblygiadau a gweithrediad Gorchmynion Cynefinoedd ac Adar yr UE

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol wedi cynhyrchu dogfen o'r enw *Planning for Biodiversity: a Good Practice Guide*, sy'n darparu cyngor am gynnwys bioamrywiaeth fel rhan annatod o bob cam o'r broses gynllunio. Yn ogystal â hyn mae *Developing Naturally - a Handbook for incorporating the Natural Environment into Planning and Development* gan Mike Oxford ar gyfer Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol a *Natural Conditions: a Review of Planning Conditions and Nature Conservation* gan y CFGA yn gyfrolau defnyddiol.

Datblygu Cynladwy

Ym 1994 cyhoeddodd Llywodraeth y DG ddogfen o'r enw *Sustainable Development: the UK Strategy*, sy'n diffinio datblygu cynladwy fel 'datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu gofynion eu hunain', ac mae Llywodraeth y DG wedi mabwysiadu hyn fel ymagwedd allweddol at gynllunio. Mae cadwraeth bioamrywiaeth yn rhan bwysig o ddatblygu cynladwy ac os caiff yr ymagwedd hon ei mabwysiadu'n llwyddiannus dylai sicrhau na chaff cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr eu haberthu er budd y tymor byr. Mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd gwybodaeth wyddonol yn gallu cadarnhau effeithiau datblygiad ar rywogaeth neu gynefin arbennig. Pe digwydd hyn dylid gweithredu'r egwyddor ragofalol, nes i gynnydd gwyddonol ganiatáu pennu'r achosion yn gywir. Mewn rhai achosion gall hyn olygu gwrthod caniatâd cynllunio.

Cynllun Datblygu Unedol

Mae swyddogaeth bwysig cynllunio ar gyfer cadwraeth natur yn cael ei chydabod a'i ddeall fwyfwy. Er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yn lleol dylai'r Cynllun Datblygu Unedol ystyried yr adnodd cadwraeth natur a gallu'r ardal dan sylw i dderbyn datblygiad. Mae'r Argraffiad Drafft Cyhoeddedig o Gynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i baratoi ac mae'n cydnabod pwysigrwydd y CGBLL a'r angen am bolisiau amgylcheddol cryf i warchod a gwella bioamrywiaeth y sir. Cynhwysir polisiau yn argraffiad drafft cyhoeddedig y cynllun ar gyfer gwarchod safleoedd dynodedig, er enghraifft, polisiau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a pholisiau ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur, tra bo polisiau eraill yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n digwydd y tu allan i'r ardaloedd dynodedig hyn.

EN1	Gwarchod Safleoedd - Safleoedd Rhyngwladol
EN2	Gwarchod Safleoedd - Safleoedd Cenedlaethol
EN3	Gwarchod Safleoedd - Dynodiadau Rhanbarthol/Lleol
EN4	Dynodi Gwarchodfeydd Natur Lleol a Chytundebau Rheoli
EN5	Gwarchod a Gwella Fflora a Ffawna
EN6	Cadw Cynefinoedd
EN7	Darpariaeth ar gyfer Safleoedd Gwarchodedig
EN8	Nodweddion Tirwedd o Bwysigrwydd Mawr ar gyfer Fflora a Ffawna
EN9	Gwarchod Safleoedd - Cynefinoedd a Rhywogaethau o Bryder Bioamrywiaethol
EN10	Gwarchod Dyfroedd Rheoledig ac Adnoddau Dŵr
EN11A	Coetiroedd Hynafol
E11	Coetiroedd Collddail a Chymysg
EN13	Rheoli Coetir
EN14	Gwrychoedd
EN15	Gorchmynion Cadw Coed
EN16	Plannu Coed
EN17	Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

- states development control criteria, particularly for SSSIs and sites with additional national and international designations;
- sets out the implications and implementation of the EU Habitats and EU Birds Directives.

The Royal Town Planning Institute has produced a document entitled *Planning for Biodiversity: a Good Practice Guide*, which provides advice on including biodiversity as an integral part of all stages of the planning process. In addition *Developing Naturally - a Handbook for incorporating the Natural Environment into Planning and Development* by Mike Oxford for the Association of Local Government Ecologists and *Natural Conditions: a Review of Planning Conditions and Nature Conservation* by the RSPB are both useful volumes.

Sustainable Development

In 1994 the UK Government produced a document entitled *Sustainable Development: the UK Strategy*, which describes sustainable development as 'development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs', and the UK Government has adopted this as a key approach to planning. Biodiversity conservation forms a major component of sustainable development and if this approach is adopted successfully it should ensure that valuable habitats and species are not sacrificed for short-term gain. In some instances scientific knowledge may be unable to confirm the effects of a development on a particular species or habitat. In these cases the precautionary principle should be applied, until scientific advances enable the effects to be properly determined, which may require in some instances the refusal of a planning permission.

Unitary Development Plan

The important role of planning for nature conservation is being increasingly recognised and understood. To maintain and enhance biodiversity at a local level the Unitary Development Plan should take into account the nature conservation resource and the capacity of the area concerned to accommodate development. Carmarthenshire County Council's Deposit Draft Unitary Development Plan has been produced and it recognises the importance of the LBAP and the need for the strong environmental policies to protect and enhance the county's biodiversity. Policies are included within the deposit draft plan for the protection of designated sites, for example policies for Sites of Special Scientific Interest and policies for Local Nature Reserves and Sites of Importance for Nature Conservation, while other policies protect habitats and species that occur outside these designated areas.

EN1	Site Protection - International Sites
EN2	Site Protection - National Sites
EN3	Site Protection - Regional / Local Designations
EN4	Designation of Local Nature Reserves And Management Agreements
EN5	Protection and Enhancement of Flora And Fauna
EN6	Retention of Habitats
EN7	Provision for Protected Sites
EN8	Landscape Features of Major Importance for Flora And Fauna
EN9	Site Protection - Habitats and Species of Biodiversity Concern
EN10	Protection of Controlled Waters and Water Resources
EN11A	Ancient Woodlands
E11	Broadleaved and Mixed Woodlands
EN13	Woodland Management
EN14	Hedgerows
EN15	Tree Preservation Orders
EN16	Tree Planting
EN17	Special Landscape Areas

EN18	Morlin - Parth Arfordirol Heb ei Ddatblygu
EN19	Morlin - Ardaloedd Wedi'u Datblygu
EN20	Gerddi Parciau a Thirweddau Hanesyddol
EN21	Tir Comin a Meysydd Pentref Cofrestredig
EN22	Tir Amaethyddol

EN18	Coastline - Undeveloped Coastal Zone
EN19	Coastline - Developed Areas
EN20	Historic, Park Gardens And Landscapes
EN21	Common Land And Registered Village Greens
EN22	Agricultural Land

HAMDDEN A THWRISTIAETH

Mynediad i Gefn Gwlad

Mae hamddena yng Nghefn Gwlad yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'r rhan fwyaf o ymweliadau â chefn gwlad o fewn cylch o bum milltir i gartref yr ymwelwyr, ac felly mae mynediad i fannau agored yn agos i lle mae pobl yn byw yn bwysig. Mae mynediad priodol i warchodfeydd natur a mannau bywyd gwyllt eraill yn gydnaws â chadwraeth bioamrywiaeth. Mae mynediad yn fodd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o fyd natur, ac felly'n cyfrannu i warchod bioamrywiaeth yn ogystal â chynnig manteision economaidd, iechyd a chymdeithasol. Fodd bynnag, gall pwysau ymwelwyr fod yn andwyol, yn enwedig ar safleoedd a ddefnyddir yn helaeth. Heb reoli ymwelwyr yn ofalus gall rhywogaethau a chynefinoedd sensitif ddioddef niwed, a dylid atal neu reoli'n ofalus weithgareddau swmlyd, aflonyddol a niweidiol.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

